Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GRANTIAU BACH CYFALAF SIR DDINBYCH 2008-2011
CRITERIA GRANT

Mae'r ffynhonnell grant yma wedi cael ei ariannu gan Raglen Adnoddau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru [CFAP]. Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael i grwpiau/mudiadau ar gyfer gwariant cyfalaf i hwyluso gweithgareddau sydd yn hyrwyddo adfywio cymunedau wrth daclo un neu fwy o'r blaenoriaethau canlynol:

1 Creu neu adnewyddu adnoddau sydd ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bobl anabl dan ofynion 'Deddf Gwahaniaethu Anabledd 1995'.
2 Gweithredu i wella'r amgylchedd adeiledig a naturiol i bobl leol.
3 Gwella lles y gymuned trwy annog ffyrdd o fyw bywiog ac iach.
4 Darparu adnoddau neu weithgareddau i leihau tlodi, anghydraddoldeb, anffafriaeth ag anfantais gymdeithasol.
5 Annog hyfforddiant sydd yn targedu pobl fregus neu eithriedig, gan gynorthwyo gyda hyrwyddo cyfleoedd am waith a chyflogau uwch.
6 Ysgogi busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol.
7 Cynnwys pobl o bob oed a gallu yn y gymuned a delio gydag anghenion grwpiau eithriedig cymdeithasol.
8 Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y gymuned.

Fe fydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau gan fudiadau a grwpiau sydd yn gweithredu o fewn dwy ranbarth etholiadol yn Y Rhyl [Gorllewin Y Rhyl a De Orllewin Y Rhyl] ynghyd ag ardaloedd Blaenoriaeth 3 yr UE [Bodelwyddan, Gallt Melyd, Dinbych Uchaf a Henllan] ond ni fydd grwpiau o ardaloedd eraill yn cael eu gwahardd rhag ymgeisio.

Ni all grantiau gael eu defnyddio ar gyfer gwaith/prosiectau sydd wedi cael eu cwblhau yn barod.

Cymhwyster
Mae grantiau cyfalaf o hyd at £5,000 ar gael i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ynghyd â chwmnïau preifat ddim er elw cyfyngedig gan warant sydd yn gweithredu o fewn Sir Ddinbych ag sydd â throsiant o lai na £100,000 y flwyddyn.

Rhaid i ymgeiswyr gael:

- Cyfansoddiad neu set o reolau ar gyfer y Grŵp/Mudiad. Rhaid i'r cyfansoddiad neu set o reolau fod wedi ei arwyddo a'i ddyddio pan gafodd ei fabwysiadu.
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal.
- Copi o'r Fantolen Ariannol fwyaf diweddar - rhaid i'r Fantolen hon fod wedi ei harwyddo a'i dyddio fel cofnod cywir o weithgaredd ariannol y Grŵp/Mudiad.
- Copi/au o ddyfynbrisiau/amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i weithio allan costau'r prosiect.
  Noder os gwelwch yn dda: Rhaid sicrhau dau amcangyfrif/ddyfynbris os yw eitem unigol o wariant yn fwy na £3,000. Os yw un eitem unigol o wariant yn fwy na £10,000 mae angen tri amcangyfrif/ddyfynbris.

Fe fydd y Pwyllgor Grant yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, a hynny er mwyn sicrhau na fydd ymgeiswyr yn gorfod aros yn rhy hir i glywed os ydynt wedi bod yn llwyddiannus gyda'i cais.

Noder os gwelwch yn dda – fod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus/aflwyddiannus i'r Cynllun Grant yma aros am 12 mis cyn gallu cyflwyno cais newydd.

Ynghlwm wrth y criteria yma mae 'Ffurflen Cais am Grant" sydd yn rhoi mwy o gyfarwyddyd ar sut i gyflwyno cais.

Os hoffech fwy o help neu gyngor ar gyflwyno cais cysylltwch â:
Cynllun Grantiau Bach Cyfalaf Sir Ddinbych
d/o Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd]
Canolfan Naylor Leyland

Stryd y Ffynnon
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1AF
Rhif ffôn: 01824 702441 Ffacs: 01824 705412
E-bost: office@dvsc.co.uk Gwefan: www.dvsc.co.uk

Noder os gwelwch yn dda mai'r dyddiadau cau ar gyfer y tair rownd grant yn ystod Blwyddyn Ariannol 2010/2011 yw:

30 Mehefin, 2010
30 Medi, 2010
31 Rhagfyr, 2010